| | |
|---|---|
| **arfod** | **Y Cyngor Llawn** |
| **Dyddiad** | **14 Mai 2026** |
| **Pwnc** | **Penodi Aelodau i'r Pwyllgor Safonau, Argymhellion Panel Cyfweld** |
| **Awdur** | **Iwan Evans, Swyddog Monitro** |
| **Penderfyniad a Geisir** | **Cymeradwyo argymhelliad Panel Cyfweld i benodi Aelodau Annibynnol i'r Pwyllgor Safonau** |

**Cefndir**

1. Mae Pwyllgor Safonau Gwynedd yn cynnwys pum aelod annibynnol, tri chynghorydd Gwynedd ac un cynghorydd cymuned

2. Daeth ail gyfnod un aelod annibynnol i ben ym Mawrth a bu i aelod annibynnol arall gamu yn ôl o'r pwyllgor yn ystod yr Hydref

3. Mae penodiad aelodau'r Pwyllgor Safonau yn cael ei lywodraethu gan Reoliadau Pwyllgorau Safonau (Cymru) 2001 ("y Rheoliadau"). Mae'r Rheoliadau yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor gynnal ymarfer recriwtio cyhoeddus fel y nodir yn y Rheoliadau a sefydlu panel penodi (yn cynnwys hyd at bum aelod panel, ac yn cynnwys un aelod lleyg ac un cynghorydd cymuned), i asesu ceisiadau yn erbyn y meini prawf sydd wedi eu gosod gan y Cyngor ar gyfer y swydd, ac i wneud argymhelliad ynghylch penodi i'r Cyngor llawn.

4. Rhaid i'r penderfyniad i benodi gael ei wneud gan y Cyngor llawn, gan ystyried argymhelliad y Panel Penodiadau.

5. Hysbysebwyd y swyddi gweigion yn unol â'r darpariaethau statudol a derbyniwyd tri chais.

6. Yn unol a threfniadau y Cyngor sefydlwyd Panel Penodi, a oedd yn cynnwys Mr Eifion Jones , Cadeirydd y Pwyllgor Safonau, y Cynghorydd Cymuned Richard Parry Hughes (Aelod Cymunedol o'r Pwyllgor Safonau), Cynghorwyr Gwynedd Ioan Thomas , Cadeirydd y Cyngor a Cynghorydd Anne Lloyd Jones Cadeirydd Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth a Mr Griffith Jones fel aelod lleyg statudol .

7. Bu'r Panel, gyda chefnogaeth a chyngor y Swyddog Monitro, yn cyfweld â'r ymgeiswyr ar 22ain Ebrill 2026 O ystyried y meini prawf a nodir yn y fanyleb person ar gyfer y rôl, argymhellodd y Panel benodi Mrs Carys Edwards a Mr Neil Hawkins fel aelodau annibynnol. Roedd y Panel o'r farn eu bod yn ymgeiswyr cryf oedd yn cyfarch y meini prawf ar gyfer penodi ac yn fodlon eu hargymell i'r rolau yma.

8.. Mae Carys sydd yn byw yn Parc , y Bala wedi bod mewn swyddi uwch-swyddog Yng Nghyngor Ynys Môn a Llywodraeth Cymru. Mae eisoes yn gwasanaethau fel aelod lleyg ar y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a Phwyllgor Llywodraethu ac Archwilio Cyngor Bwrdeistref Sirol

Wrecsam. Mae hefyd wedi treulio cyfnod ar fwrdd rheoli Grŵp Cynefin a Bwrdd Rheoli bwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr fel cynghorydd annibynnol.

9. Mae Neil yn byw ym Mangor  a gyda chefndir ym maes addysg ac elusennol  Hyd at 2021 roedd yn Bennaeth Coleg Concord, ysgol ryngwladol . Cadeiriodd  yr Elusen "Humanists UK" hyd 2025 ac mae yn  gwasanaethu fel Cadeirydd elusennau "Befrienders Worldwide" a "Tough to Talk" , elusennau atal hunanladdiad.

9. Mae'r Rheoliadau'n darparu bod yn rhaid i dymor swydd yr aelodau annibynnol gael ei bennu rhwng pedair a chwe blynedd.

**Argymhelliad**

**Argymhellir bod y Cyngor yn penodi Carys Edwards  a Neil Hawkins  yn Aelodau Annibynnol o'r Pwyllgor Safonau am gyfnod o 6 blynedd.**

**Sylwadau Swyddogion Statudol**

**Swyddog Monitro**

Swyddog Cyfrifol

**Prif Swyddog Cyllid**

*Dim gwrthwynebiad o safbwynt priodoldeb ariannol.*